



CYMDEITHAS TAI TEULUOEDD (CYMRU) CYF

CYNLLUN IAITH CYMRAEG

A baratowyd o dan

DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993.

Cymdeithas Tai Teuluoedd (Cymru) Cyf, 43 Walter Road, Abertawe. SA1 5PN
Rhif ffôn: 01792 460192. Ffacs: 01792 473726.
www.fha-wales.com e-bost info@fha-wales.com

Mae Cymdeithas Teuluoedd Cymru wedi meithrin yr egwyddor a sefydlwyd o dan **DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993**, sef y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus, yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, hyd orau ei gallu.

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn ni'n cyflawni'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i bobl sydd angen tai yng Nghymru.

Mae'r Gymdeithas yn ymgymryd i gynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg os oes unrhyw gynnig wedi'i gynllunio a fyddai'n effeithio'r uniongyrchol ar y cynllun hwn.

Amcanion:

I alluogi pawb sy'n defnyddio gwasanaeth neu sydd â chysylltiad gyda'r Gymdeithas i wneud hyn drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â'u dewis personol.

I sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel p'un ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14(1) o'r Ddeddf yn

WELSH LANGUAGE SCHEME CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

CYFLWYNIAD

Mae Cymdeithas Tai Teuluoedd (Cymru) Cyf wedi bod yn ddarparwr tai cymdeithasol yng Nghymru ers 1975. Yn bresennol, rydym ni'n cynnig gwasanaethau tai a chefnogaeth yn Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd/Port Talbot. Rydym ni'n rheoli dros 2000 o dai o ansawdd da, fforddiadwy, ac yn cwrdd ag anghenion ystod eang o bobl, gan gynnwys teuluoedd, pobl hŷn, pobl sengl, y digartref a'r rhai sydd yn dioddef o salwch meddwl. O 2006, mae ein heiddo wedi'u gwahanu'n ddaearyddol fel a ganlyn:

Abertawe	69%
Castell-nedd/Port Talbot	1%
Sir Gaerfyrddin	30%

Mae ystadegau o'r awdurdodau lleol yn yr ardaloedd hyn yn dangos fod y canran o bobl sy'n siarad Cymraeg yn amrywio o thua 18% yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, i 55% yn Sir Gaerfyrddin. Mae ffigyrau o Gyfrifiad 2001 yn dangos bod 20.8% o'r boblogaeth Gymreig yn siarad Cymraeg.

Gyda phrif swyddfa yn Abertawe, asiantaeth Gofal a Thrwsio yn Rhydaman, a swyddfeydd drwy'r ardal, rydym ni'n cyflogi dros 160 o staff.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd Rheoli gwirfoddol sy'n dirprwyo rheolaeth ar gyfer materion dydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a dau Gyfarwyddwr.

Fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, rydym ni'n defnyddio grantiau a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ychwanegol, rydym ni'n cael cyllid preifat gan fanciau, adeiladau cymdeithasol a sefydliadau ariannol eraill.

DARPARU GWASANAETHAU

Rydym ni'n anelu tuag at ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg, a ni fydd iaith ddewisol person yn amharu ar effeithiolrwydd y gwasanaeth a gynigir.

Efallai na fydd yn bosib darparu gwasanaeth hollol gyson mewn Cymraeg a Saesneg ar draws yr holl ardaloedd gweithredol. Fodd bynnag, byddwn ni bob amser yn ceisio darparu'r gwasanaeth gorau posib.

Byddwn ni'n sicrhau bod y rhai hynny sydd â'r dasg o ffurfio polisiau yn ymwybodol o'r Cynllun, a'r angen i asesu effaith polisi newydd ar y cynllun, a'u bod nhw'n gyson gyda'r cynllun ac nad ydyn nhw'n ei danseilio.

1 Bwrdd Rheoli

- 1.1 Bydd y Gymdeithas yn anelu tuag at recriwtio a chynnal cynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg ymysg Aelodau gwirfoddol y Bwrdd, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa leol, a bydd yn cynnig hyfforddiant yn yr Iaith Gymraeg i'r rhai hynny sydd â diddordeb. Bydd swyddi a hysbysebair ar gyfer Aelodau'r Bwrdd yn dynodi y croesawir siaradwyr Cymraeg.

2 Hunaniaeth Gyfun

- 2.1 Bydd cynrychiolaethau o'n delwedd gyhoeddus yn ymddangos mewn Cymraeg a Saesneg. Er enghraifft, logos, byrddau arwyddion, penawdau llythyr, cardiau busnes, slipiau cyfarch, cerbydau, dillad ac adeiladau. Pan fyddwn ni'n adnewyddu neu ailadeiladu unrhyw arwyddion newydd, byddwn ni'n sicrhau bod y fersiynau newydd yn hollol ddwyieithog. Bydd arwyddion a godir am y tro cyntaf yn hollol ddwyieithog. Eithriad i hyn yw pan fo arwyddion yn ymddangos mewn Saesneg a Chantoneg.
- 2.2 Ble bynnag y defnyddir Cymraeg a Saesneg, bydd y ddau'r un mor bwysig â'i gilydd.
- 2.3 Derbynnir y bydd cyflawni hunaniaeth gyfun hollol ddwyieithog yn cymryd amser, ac er na fydd yn bosib amnewid yr holl eitemau o'r fath ar unwaith, bydd hyn yn cael ei gynllunio pan a phryd yr archebir stoc/cyflenwadau newydd.

3 Cyfatebiaeth

- 3.1 Rydym ni'n croesawu cyfatebiaeth mewn Cymraeg a Saesneg, a byddwn ni'n ymateb yn iaith y gwreiddiol. Bydd y Gymdeithas yn sicrhau y bydd graddfeydd amser ar gyfer Cymraeg a Saesneg fel arfer yn union yr un fath. Efallai y bydd atebion sydd â natur dechnegol yn cymryd tipyn mwy o amser tra bod cymorth cyfieithu proffesiynol yn cael ei ddarganfod. Yn yr achos hwn, byddwn ni'n ateb yr ysgrifennydd, ac yn egluro'r rheswm am unrhyw oediad yn eu hiaith ddewisol.
- 3.2 Os ydym ni'n gwybod mai Cymraeg yw iaith ddewisol person, byddwn ni'n ysgrifennu mewn Cymraeg a bydd y dewis yma'n cael ei anodi ar ein cofnodion. Byddwn ni'n gofyn am ddewisiadau tenantiaid presennol mewn un ymarfer, ac ar ôl hynny, ar y cysylltiad cyntaf gyda'r Gymdeithas.
- 3.3 Os oes angen, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i ddarganfod gwasanaethau cyfieithu.
- 3.4 Cynghorir yr holl rai hynny sydd â busnes gyda ni, y croesawir cyfathrebiad mewn Cymraeg neu Saesneg, ac fe nodir hyn ar ein penawdau llythyr.
- 3.5 Bydd llythyrau safonol i denantiaid yn cael eu cynhyrchu mewn Cymraeg a Saesneg.

4 Cyfarfodydd

- 4.1 Wrth drefnu cyfarfodydd yn ein swyddfeydd neu yng nghartref tenant neu ymgeisydd, byddwn ni'n gofyn pa iaith sydd well ganddyn nhw, os nad yw'r wybodaeth eisoes gennym ni ar ffeil. Ble bynnag sy'n bosib, byddwn ni'n sicrhau bod person sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai hynny sydd wedi nodi Cymraeg fel eu hiaith ddewisol.
- 4.2 Oherwydd mai nifer fechan yn unig o staff sydd gennym ni sy'n siarad Cymraeg ar ddechrau'r Cynllun, nid ydym ni'n gallu sicrhau cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar unwaith mewn Cymraeg. Byddwn ni'n anelu at ddarparu mwy o wasanaethau wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun hwn.
- 4.3 Os oes gofyn cyson am gyfarfodydd o'r fath mewn Cymraeg, ac nad ydym ni'n gallu cwrdd â'r gofyn hwnnw, byddwn ni'n ystyried recriwtio neu hyfforddiant i'n galluogi ni i gwrdd â'r angen.
- 4.4 Pe cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus, byddwn ni'n croesawu cyfraniadau mewn Cymraeg neu Saesneg. Wrth hysbysebu'r cyfarfod, byddwn ni'n gofyn i gyfranogwyr i'n cynghori ni o flaenllaw o'u hiaith ddewisol, a byddwn ni'n ymdrechu i drefnu gwasanaethau cyfieithu ble bynnag sy'n bosib. Byddwn ni'n cynghori'r rhai hynny sy'n mynychu o flaenllaw os bydd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.

5 Partneriaethau

- 5.1 Byddwn ni'n annog ein sefydliadau partner i wneud defnydd o'r iaith Gymraeg.
- 5.2 Byddwn ni'n darparu copi o'n cynllun i'n contractwyr yn ystod y broses tendro, a gofyn sut fedran nhw weithredu'n ddwyieithog.
- 5.3 Os ydym ni'n bartneriaid mewn consortiwm, byddwn ni'n annog y consortiwm hwnnw i feithrin polisi dwyieithog.

6 Cyhoeddiadau

- 6.1 Byddwn ni'n anelu at gynhyrchu'r holl ddeunyddiau argraffedig newydd a gynhyrchwyd ar gyfer ein tenantiaid yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un ddogfen. Byddwn ni'n ymdrechu i gwblhau'r ymarfer hwn erbyn diwedd y cynllun hwn, a fydd yn ein galluogi ni i ddyrannu cyllid a chynyddu cyllidebau yn unol â hynny.

7 Cyhoeddusrwydd

- 7.1 Fel arfer, bydd byrddau arddangos ar gyfer pwrpasau marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu mewn Saesneg a Chymraeg ble bo'n addas. Er enghraifft, bydd Gofal a Thrwsio yn Rhydaman bob amser â deunydd arddangos a thafleuni gwybodaeth mewn Cymraeg.

7.2 Fel arfer, bydd datganiadau i'r Wasg mewn Saesneg os mai Saesneg yw'r cyfryngau sy'n mynd i'w defnyddio, ond byddan nhw'n cael eu cynhyrchu mewn Cymraeg os ydyn nhw wedi'u hanelu at gyhoeddiadau Cymraeg.

8 Hysbysiadau Cyhoeddus

8.1 Bydd hysbysiadau cyhoeddus yn ymddangos yn y wasg mewn Cymraeg a Saesneg.

9 Recriwtio

9.1 Ein nod yw sicrhau bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg mewn cyswllt â'r cyhoedd.

9.2 Os mai Saesneg yw'r cyfryngau recriwtio fydd yn cael eu defnyddio, yna Saesneg fydd fel arfer y cyfrwng addas ar gyfer hysbysebu am staff. Fodd bynnag, pan benderfynir bod y gallu i siarad Cymraeg yn ofyn angenrheidiol o'r swydd, yna bydd yr hysbyseb yn ymddangos mewn Cymraeg a Saesneg.

9.3 Fel arfer, darperir ffurflenni cais am swydd mewn Saesneg, a bydd gofyn i'r ymgeisydd ymgeisio mewn Saesneg, gan mai dyma brif iaith fusnes y Gymdeithas.

9.4 Bydd manylion y person yn nodi bod Cymraeg o leiaf yn ddymunol ar gyfer yr holl swyddi.

9.5 Bydd rheolwyr yn ystyried p'un ai dylai swyddi gael Cymraeg yn angenrheidiol, yn dibynnu ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd eu gwasanaeth a'r cwsmeriaid maen nhw'n darparu ar eu cyfer.

9.6 Pan ragargraffir pecynnau gwybodaeth ar gyfer recriwtio, byddan nhw'n cynnwys gwybodaeth yn y ddwy iaith. Cynhyrchir pecynnau gwybodaeth ar gyfer swyddi ble mae Cymraeg yn angenrheidiol yn ddwyieithog.

9.7 Bydd ymgeiswyr sy'n cael cynnig swyddi yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r gwasanaethau iaith Gymraeg a gaiff eu cynnig gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

10 Staffio

10.1 Bydd archwiliad blynyddol o sgiliau iaith yn cael ei gynnal, a bydd enwau aelodau staff sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn cael eu cyhoeddi fel bod eraill a fyddai efallai angen cymorth yn gallu eu darganfod nhw'n rhwydd.

11 Gwybodaeth tenant

11.1 Bydd llythyrau safonol yn cael eu cynhyrchu mewn Saesneg a Chymraeg.

11.2 Bydd llawlyfrau tenantiaeth a chytundebau cyfreithiol yn cael eu cynhyrchu mewn Saesneg, ac ar gael mewn Cymraeg i'r rhai hynny sydd â Chymraeg fel eu hiaith ddewisol. Byddwn ni'n sicrhau bod copi dwyieithog ar gael ar ein gwefan.

11.3 Bydd ffurflenni cais tenantiaeth yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac ar gael ar ein gwefan.

12 Cyswllt ffôn

12.1 Rydym ni'n croesawu cyswllt ffôn mewn Cymraeg a Saesneg. Bydd holl aelodau'r staff sydd yn ateb llinellau ffôn allanol cyhoeddus ym mhob adran y Gymdeithas, yn ateb gyda chyfarch dwyieithog. Bydd staff sydd ddim yn siarad Cymraeg yn trosglwyddo galwyr at berson sy'n siarad Cymraeg pe hoffai'r galwr barhau mewn Cymraeg. Os nad oes unrhyw rai ar gael, bydd galwyr yn cael y cyfle i barhau'r sgwrs mewn Saesneg neu byddwn ni'n trefnu i berson sy'n siarad Cymraeg i ddychwelyd yr alwad cyn gynted â phosib. Fel arall, gallan nhw gyflwyno llythyr mewn Cymraeg.

12.2 Bydd y ffôn ateb yn ein prif swyddfa yn cynnwys neges ddwyieithog.

13 Hyfforddiant

13.1 Byddwn ni'n hyfforddi'r cynllun hwn drwy gynnig hyfforddiant iaith Cymraeg ar lefel dechreuwr a gwellhawr i staff ac Aelodau Bwrdd. Anogir staff i ddefnyddio Cymraeg yn ystod y diwrnod busnes os ydyn nhw'n hyderus i wneud hyn. Yn ogystal, bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gael ar gyfer y staff rheng flaen. Bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno yn ystod cyflwyniad cyffredinol i staff newydd.

14 Ymwelwyr i swyddfeydd

14.1 Rydym ni'n croesawu cyswllt gydag aelodau o'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd aelodau staff sy'n siarad Cymraeg unai'n delio'n uniongyrchol ag ymholiadau, neu os nad yw hyn yn bosib, byddan nhw'n cyfieithu ar y pryd ar ran aelodau eraill o staff os ar gael. Fel arfer, nid ydym ni'n ystyried bod y defnydd o gyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn ymarferol mewn amgylchiadau o'r fath.

14.2 Bydd gwybodaeth arddangos ag arwyddion mewnol yn ein swyddfeydd yn ddwyieithog os ydym ni'n cynhyrchu'r rhain ein hunain. Byddwn ni'n gofyn i asiantaethau eraill am ddeunydd dwyieithog ble bo'n addas, ond derbynnir na fydd yr holl asiantaethau'n gallu cydymffurfio â'r gofyn hwn.

15 Cyswllt gwefan ac e-bost.

15.1 Byddwn ni'n gweithio tuag at gynhyrchu ein gwefan mewn Cymraeg a Saesneg ble bo'n addas ac ymarferol. Bydd cyfathrebiadau drwy e-bost a dderbynnir mewn Cymraeg yn cael eu trosglwyddo i berson sy'n siarad Cymraeg. Bydd y graddfeydd amser ar gyfer ymateb mewn Cymraeg neu Saesneg yn union yr un fath.

16 Monitro

16.1 Byddwn ni'n monitro ac adrodd ar ddatblygiad y cynllun hwn a'r cynllun gweithredu yn flynyddol i'n Bwrdd Rheoli, yn ogystal â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Hefyd, byddwn ni'n darparu ystadegau ar:

- Nifer y ceisiadau ar gyfer cyfatebiaeth mewn Cymraeg.
- Nifer y ceisiadau ar gyfer cyfarfodydd mewn Cymraeg.
- Nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant.
- Canran y staff sy'n gallu cyfathrebu yn ysgrifenedig ac ar lafar mewn Cymraeg.
- Y cwynion a dderbyniwyd.

17 Costau a graddfeydd amser

17.1 Derbynnir y bydd llawer o oblygiadau cyllidol ynghlwm â'r cynllun hwn. O ganlyniad, byddwn ni'n ymdrechu i ddsbarthu targedau'r cynllun o fewn tair blynedd ar ôl cychwyn y cynllun yn swyddogol.

18 Cyfrifoldeb

18.1 Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fydd sicrhau gweithredu'r cynllun hwn yn effeithiol. Bydd pob Rheolwr yn gyfrifol am ei weithredu yn ardaloedd gweithredol eu hunain.

18.2 Pennaeth Personél fydd yn gyfrifol am ddsbarthu gwybodaeth a chanllaw am y cynllun a lledaenu arfer da.

18.3 Dylai sylwadau a gofynion am fwy o wybodaeth gael eu hanfon i:

C Fortey
Pennaeth Personél
Cymdeithas Tai Teuluoedd (Cymru) Cyf
43 Walter Road
Abertawe, SA1 5PN

E-bost: caroline.fortey@fha-wales.com.

19 Amserlen er Gweithredu

Targed	Swyddog Arweiniol	Dyddiad targed
Ystyried yr angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth ystyried Aelodaeth Bwrdd.	Prif weithredwr	Ion 07
Edrych am wasanaethau cyfieithu proffesiynol	Pennaeth Personél	Ar unwaith
Arolygu siaradwyr Cymraeg ymysg staff ym mhob ardal gwasanaeth. Ystyried y weithred sydd ei hangen.	Pennaethiaid pob Adran	Mawrth 07
Casglu'r iaith sy'n well gan denantiaid a'i chofnodi yn ffeiliau'r tenant.	Pennaeth Tai a SP	Mawrth 07 A pharhaol
Darganfod a chyfieithu llythyrau safonol, e.e. rhenti, ôl-ddyledion, llythyrau trwsio ac ailwefrio. Cyfathrebu gydag IBS	Holl Benaethiaid Adrannau i ddarganfod llythyrau	Medi 07
Sicrhau bod staff yn ateb llinellau allanol gyda chyfarach dwyieithog. Hyfforddi staff i wneud hyn.	Pennaeth Tai, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo, Pennaeth Personél	Ar unwaith
Cynhyrchu penawdau llythyr dwyieithog, slipiau cyfarach ayb. Cynnwys datganiad y croesawir cyfathrebiad mewn Cymraeg neu Saesneg.	Pennaeth Personél	Ar unwaith
Hunaniaeth Gyfun . Os yw logo ayb yn ymddangos ar gerbydau, dillad ayb, eu cynhyrchu'n ddwyieithog.	Pennaeth Gwasanaethau Eiddo, Pennaeth Datblygu	Ion 07 - Ion 10
Cynnal arolwg blynyddol o sgiliau staff a chyhoeddi'r canlyniadau i'r holl staff.	Pennaeth Personél	parhaol
Cyhoeddi'r cynllun i'r staff a'i gynnwys yn y cyflwyniad. Annog staff i gymryd rhan mewn hyfforddiant Iaith Gymraeg.	Pennaeth Personél	Ar ôl ei gymeradwyo a pharhaol
Wrth i swyddi ddod yn wag, arolygu pwysigrwydd sgiliau iaith Cymraeg fel criteria angenrheidiol.	Holl Benaethiaid	Parhaol
Cyhoeddi'r cynllun ar y wefan	Pennaeth TGCH	Ar ôl ei gymeradwyo
Cyfieithu holl dudalennau'r we gan gynnwys fersiynau Cymraeg dogfenni e.e. llawlyfr i denantiaid.	Pennaeth TGCH	Medi 07
Sicrhau bod contractwyr partner yn ymwybodol o'n cynllun	Pennaeth Datblygu a Gwasanaethau Eiddo	Ar ôl ei gymeradwyo
Cyfathrebu gyda chontractwyr i sicrhau bod arwyddion adeiladwaith yn ddwyieithog.	Pennaeth Datblygu a Gwasanaethau Eiddo	Parhaol
Parhau gyda hyfforddiant i wellhawyr a chyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff rheng flaen.	Pennaeth Personél	Ion 08 a pharhaol
Cynhyrchu taflenni ac adnodd cyhoeddusrwydd sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunydd recriwtio.	Yr Holl Benaethiaid	Ion 2010
Hysbysu staff newydd ynghylch gwasanaeth Cymraeg y Swyddfa Cofnodion Troseddol.	Adran Personél	Ar unwaith